

Pwyllgor Rhanbarthol Dwyrain De Cymru

Cofnodion SWERC(2) 02-06 – Cyfarfod Anffurfiol

Dyddiad: Dydd Gwener 16 Mehefin 2006

Amser: 10:00am tan 12:30pm

Lleoliad: Canolfan Gymuned Gristnogol Oasis, Cefn Fforest, Y Coed Duon

Aelodau:

Enw	Etholaeth
Jocelyn Davies AC	Dwyrain De Cymru
Irene James AC	Islwyn
Huw Lewis AC	Merthyr Tydfil a Rhymni

Cyflwynwyr:

Enw	Yn Cynrychioli
Dr Mike Bourne	Ysbyty Felindre, Caerdydd
Hywel Morgan Susan Kent	Rhwydwaith Canser De Ddwyrain Cymru
Simon Blackburn Carys Thomas	Cefnogaeth Canser Macmillan
Susan George	CLIC , Gofalu am Blant gyda Chanser

Y Gwasanaeth Pwyllgorau:

Chris Reading	Clerc
Leanne Hatcher	Dirprwy Glerc

Eitem 1: Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

1.1 Gan nad oedd cworwm, ni ellid ethol Jocelyn Davies yn ffurfiol fel Cadeirydd ond fe'i penodwyd fel Cadeirydd dros dro i'r cyfarfod.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Rosemary Butler, Jeff Cuthbert, David Davies, William Graham, Mike German, John Griffiths, Irene James, Laura Anne Jones a Lynne Neagle.

1.3 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1.3 Nododd y Cadeirydd mai hwn oedd y cyfarfod cyntaf i'w gynnal ers marwolaeth Peter Law a thalodd deyrnged i'w wasanaeth i'r Pwyllgor.

Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 17 Chwefror 2006

2.1 Bydd y Pwyllgor yn cymeradwyo'r cofnodion hyn yn ffurfiol yn y cyfarfod nesaf.

Eitem 3: Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor 2005/06

3.1 Bydd y Pwyllgor yn cytuno'n ffurfiol ar yr Adroddiad Blynyddol yn y cyfarfod nesaf.

Eitem 4: Adolygiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o Wasanaethau Canser.

4.1 Dywedodd y Cadeirydd mai prif ddiben y cyfarfod oedd trafod gwasanaethau canser yn Ne Ddwyrain Cymru. Bydd y sylwadau yn cael eu pasio i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, sy'n gwneud adolygiad polisi ar y pwnc ar hyn o bryd.

4.2 Yr oedd cyflwyniadau gan y rhai a enwir uchod. Gellir gweld copiau o'r cyflwyniadau ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol www.wales.gov.uk

4.3 Dywedodd yr Aelodau eu bod wedi gweld yr holl gyflwyniadau'n hynod ddiddorol a threiddgar. Cyflwynodd yr aelodau'r pwyntiau canlynol i'r panel.

Lleoliad a hygyrchedd gwasanaethau, a ph'un ai fod angen canoli gwasanaethau diagnosteg.

Yr angen am gynllun diwedd bywyd er mwyn ystyried barn cleifion a theuluoedd a sut y gellir dymchwel y rhwystr sy'n bodoli rhwng iechyd a gofal cymdeithasol.

Y dylai gwasanaethau atal fod yn gymaint rhan o'r gwasanaeth â'r driniaeth o ganser.

4.4 Cynigiodd y cyflwynwyr yr ymatebion canlynol:

Dywedodd Dr Mike Bourne nad oedd unrhyw angen am ganoli nac am ddelweddu data bellach.

Dywedodd Hywel Morgan eu bod yn rhagweld y bydd y mwyafrif helaeth o gleifion yn parhau i

ymweld â'u Meddyg Teulu lleol, y byddant yn parhau i gael eu hanfon i'w hysbyty lleol ble y bydd eu hafiechyd yn cael diagnosis ac yn cael ei asesu fesul cam. Dylai pob triniaeth cemotherapi a gofal lliniarol fod yn lleol a dylai canoli gwasanaethau ddigwydd cyn lleied ag sy'n bosibl.

Gyda golwg ar gynllun diwedd bywyd, mae nifer o strategaethau gwahanol. Rhaid i'r strategaethau hyn oll gael eu cysylltu gyda'i gilydd mewn rhaglen neu gynllun diwedd bywyd. Yn ddelfrydol bydd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn gallu rhannu asesiadau.

Mae atal yn faes sy'n cael ei anwybyddu i raddau helaeth a dylem ddysgu gwersi oddi wrth ein cyfeillion yn yr adran gardiag am fwyta'n iach, ymarfer corff a rhoi'r gorau i ysmegu. Mae'n rhaid i'r materion hyn gael eu dynodi fel bod pobl yn sylweddoli y gallant ostwng y perygl iddynt gael cancer. Dywedodd Cary Thomas gydag arbenigaeth a chanoli gwasanaethau fod pryder am yr effaith a gaiff hyn ar gleifion gyda golwg ar deithio, ac os digwydd hyn, dylai costau teithio cleifion gael eu hystyried a dylid eithrio'r bobl rhag talu am barcio. Mae parcio ceir yn broblem fawr. Mae cynllun costau teithio i ysbyty wedi'i sefydlu, ond nid yw profi modd yn gysylltiedig ag ef, felly mae oddeutu 90 y cant o gleifion cancer yn dioddef caledi ariannol.

Nid oedd atal cancer wedi'i gynnwys yng nghylch gorchwyl adolygiad y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd yr oeddent yn teimlo ei bod yn dasg rhy fawr i edrych ar wasanaethau atal a gwasanaethau cancer.

Cyfeiriodd Susan Kent at feddygon ymgynghorol gofal lliniarol a dywedodd fod cydnabyddiaeth amlwg fod angen meddygon ymgynghorol ychwanegol o fewn Merthyr Tydfil, Caerffili, Blaenau Gwent a Gogledd Sir Fynwy. Y bwriad yw y bydd y meddygon ymgynghorol hyn yn gweithio a rhyngweithio gyda'i gilydd.

Dywedodd Susan George fod y model cancer Plant wedi'i sefydlu'n dda gydag oddeutu 95 y cant o blant yn cael eu trin mewn canolfannau arbenigol ond mewn rhai rhannau o'r wlad mae model o rannu gofal gyda'r ysbyty lleol neu gyda'r timau cymuned lleol wedi'i ddatblygu'n dda iawn.

Dywedodd Simon Blackburn fod strategaeth gofal lliniarol yng Nghymru yn hanfodol ynghyd â chynnwys y gwasanaethau cymdeithasol i gyflawni gofal lliniarol a thrwy gydol y broses triniaeth cancer.

4.5 Gofynnodd Gaynor Oliver oedd yn cynrychioli Health Watch Cwm Rhymni am ystadegau ar y nifer o gleifion cancer o fewn ardal de ddwyrain Cymru ac unrhyw ystadegau am achosion cancer o ran canrannau o gymharu gydag ardaloedd eraill megis Gogledd neu Orllewin Cymru. Mewn ymateb dywedodd Hywel Morgan fod llawer o waith casglu ystadegau yn cael ei wneud gan uned Cyngor Gwybodaeth ac Arolygaeth Cancer Cymru, cofrestrfa cancer Cymru ac maent yn cyhoeddi ystadegau ar gyfer ardaloedd unigol y Cyngor.

4.6 Fe wnaeth Eric James, yn cynrychioli fforwm pensiynwyr Casnewydd ddau bwynt. Yn gyntaf y dylai ambiwlansau sy'n cludo pobl i'r ysbyty ddweud pa amser y byddant yn casglu pobl o'u cartrefi ac yn ail, soniodd am y problemau gyda dibynnu ar ddelweddu digidol a systemau cyfrifiadurol. Mewn ymateb dywedodd Carys Thomas, yn ychwanegol at y ffaith fod ambiwlansau yn hwyr yn casglu cleifion fod yn rhaid i gleifion hefyd deithio o amgylch trefi a phentrefi amrywiol a niferus i gasglu cleifion eraill, ac mae'r ambiwlansau hyn yn aml yn rhy llawn i adael i ofalwyr deithio felly rhaid i ofalwyr ddod o hyd i'w ffyrdd eu hunain i'r ysbyty gan achosi mwy o gostau. Mewn ymateb i'r sylw a wnaethpwyd am ddelweddu digidol dywedodd Dr Bourne nad ydynt yn cynnig canoli yn yr ystyr y bydd yr holl ddata yn cael ei gadw ar un cyfrifiadur mewn un lleoliad, a'i fod yn fwy diogel na phan oedd lluniau pelydr-x yn cael eu trosglwyddo mewn pecynnau papur. Fe sicrhodd Dr Bourne y cyfarfod fod o leiaf 3 chopi o bob delwedd ar gael wrth gefn. Dywedodd mai'r hyn yr

oeddent yn ei fwriadu oedd y dylai delweddau fod ar gael i unrhyw un ar unrhyw amser.

4.7 Barry Taylor Cynghorydd Cymuned yn cynrychioli Pontypwl. Mae Mr Taylor yn dechnegydd ambiwlans wedi ymddeol a dywedodd fod problemau difrifol gyda'r gwasanaethau ambiwlans a diffyg ariannu. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth Ambiwllans yn gorfod arbed 11 miliwn o bunnoedd a'r unig ffordd o leihau'r gwariant yw torri ar daliadau goramser, felly bydd hyn yn golygu fod y gwasanaeth yn dioddef a'r cyhoedd yn mynd i orfod aros yn hirach am y gwasanaeth.

4.8 Gofynnodd Andrew Richards Prif Weithredwr Hosbis y Cymoedd yn Nhredegar a Chadeirydd y fforwm ar gyfer Hosbisau Gwirfoddol yng Nghymru i'r Pwyllgor a oedd cynlluniau i roi sylw i'r strategaeth gofal lliniarol a gyhoeddwyd yn 2001. Mewn ymateb dywedodd y Cadeirydd fod hyn yn fater i'r bwrdd iechyd lleol.

4.9 Gofynnodd Mike Roberts sy'n cynrychioli Cyngor Tref Abertyleri pam fod Cymru ar ei hôl hi o gymharu gyda rhannau eraill o Brydain gyda golwg ar gyfarpar a beth mae'r Cynulliad Cenedlaethol am ei wneud i geisio sicrhau fod Cymru yn gyfartal â Lloegr a'r Alban. Gofynnodd Mr Roberts hefyd sut all pobl gael eu haddysgu am atal canser a byw yn iach. Mewn ymateb dywedodd y Cadeirydd fod llawer o'r cyflwynwyr wedi crybwyll y peiriannau ac fod rhaglen wedi'i chynllunio ers 1988 ond fod dim wedi digwydd. Gofynnodd y Cadeirydd i Dr Bourne am esboniad byr ar y peiriannau. Esboniodd Dr Bourne eu bod yn beiriannau mawr iawn sy'n cynhyrchu pelydrau ynni cryf i drin canserau. Ychwanegodd hefyd na ddylem fod mor negyddol am y driniaeth sydd ar gael yng Nghymru ac fod gennym rai o'r offer gorau sydd ar gael. Rhoddodd Irene James wybod fod y Cynulliad wedi cyflwyno mentrau megis brecwast am ddim mewn ysgolion i alluogi plant i fwyta'n iach.

4.10 Gofynnodd Jerome Jackson sy'n cynrychioli'r blaidd lafur ym Merthyr Tydfil a Rhymni a oedd uned MacMillan am fod yn Ysbyty'r Tywysog Charles? Mewn ymateb dywedodd Simon Blackburn ei fod yn gobeithio y bydd uned yn yr ysbyty ac mae trafodaethau am hyn wedi'u cynnal. Mae rhywfaint o godi arian wedi digwydd yn ddiweddar i ddarparu uned cemotherapi yn yr ysbyty gobeithio yn y ddwy flynedd nesaf.

Eitem 5: Amser a lleoliad ar gyfer y cyfarfod nesaf

5.1 Cyhoeddodd y Cadeirydd y lleoliadau a'r pynciau ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf:
27 Hydref 2006; Caldicot – Y Gwasanaeth Tân yn Ne Ddwyrain Cymru
9 Mawrth 2007; Pontypwl – Gwasanaethau Epilepsi De Ddwyrain Cymru

Y Gwasanaeth Pwyllgorau Mehefin 2006